Teithiau Cerdded Gwledig o Gwmpas Wrecsam

Taith Gerdded 5 – Nant y Ffrith (5 milltir / 2½ awr)

Bwlchgwyn – Nant-y-ffrith – Y Ffrith – Glascoed – Bwlchgwyn

Mae'r daith hon yn dechrau ger Cofgolofn Bwlchgwyn (cyfeirnod grid SJ263536) ar yr A525 rhwng Wrecsam a Rhuthun. Mae sawl golygfa fendigedig o Ddyffryn y Ffrith ac mae rhaeadrau trawiadol gerllaw. Mae'r llwybr yn mynd trwy Black Wood a Nant Wood wrth ddisgyn i'r hen anheddiad Frythonaidd-Rufeinig yn y Ffrith, ac yn dychwelyd ar hyd llwybr ceffylau pwn a thros dir pori. Mae sawl ardal o brydferthwch naturiol yn gwneud y daith yn un gwerth chweil unrhyw adeg o'r flwyddyn.

Ceir: Mae digon o le i barcio ger y gofgolofn.

Bysiau: Mae gwasanaethau bws rheolaidd yn mynd heibio i Swyddfa Bost Bwlchgwyn. O fan yma ewch i fyny'r allt ar y ffordd fawr i'r man dechrau. Gwybodaeth deithio 01978 266166.

Map: Mae map Explorer 256 yr Arolwg Ordnans yn cwmpasu'r ardal ond bydd y darn a ddarparwyd yn ddigon i chi ar gyfer y daith ei hun.

- *Nid yw'r daith yn addas i bobl mewn cadeiriau olwyn, bygis na phlant bach.*

CYFARWYDDIADAU

Trowch i lawr y lôn gul a 70 metr ar ôl mynd heibio i'r adeiladau, chwiliwch am lwybr rhwng y ddau bostyn concrid ar y chwith. O fan yma, mae golygfeydd ar draws y dyffryn i'r mynydd, **Pen-llan-y-gŵr (1).**

Dilynwch y llwybr i lawr yr allt, gan fynd heibio i chwarel ar eich chwith a throwch i'r dde ar y gyffordd. Croeswch y ffordd i ddod o hyd i'r llwybr disgynadwy.

Ewch ar draws trac coedwig a ger y lôn trowch i'r chwith i lawr yr allt i'r bont. Ar yr ochr arall, trowch i'r chwith i weld y stablau a'r cerbyty sydd â chromen ddiddorol a wnaed o binwydd pyg wedi ei gorchuddio â phlwm. Arferai'r adeilad hwn fod yn rhan o **Ystad Plas Nant-y-ffrith (2)** ac mae'n annedd breifat erbyn hyn.

Dychwelwch i'r bont ond peidiwch â'i chroesi. Cymerwch y trac i fyny'r allt i weld golygfa dda ar draws y dyffryn. Cyflwynodd yr ystad goed a pherthi, gan gynnwys derw cochion a ffawydd coprog, y gallwch eu gweld yn tyfu ymysg coed conifferaidd y Comisiwn Coedwigaeth. Mae'r coed dail llydan yn helpu Nant-y-ffrith i fod yn gynefin da i ystlumod. Mae ystlumod Natterer, Daubenton a chlustiog yn rhai o'r rhywogaethau i'w gweld yma pan fydd hi'n nosi.

Ger y llwybrau croes, mae'r ffordd ymlaen yn arwain at safle Plas Nant-y-ffrith, sy'n fan poblogaidd i gael picnic erbyn hyn.

Dilynwch y prif drac gan gadw i'r dde trwy Black Wood a Nant Wood; dyma'r hen ffordd ystad i'r Ffrith. Byddwch yn dod i Nant-uchaf, tyddyn o'r 18fed ganrif, a foderneiddiwyd erbyn hyn.

Ychydig heibio i'r prif adeiladau, trowch i'r dde ar hyd y prif drac am ryw hanner milltir, gan fynd heibio i Nant Isa ar eich chwith. Mae coed cyll yn llenwi'r gwrych wrth i chi fynd tuag at draphont y rheilffordd. Cerddwch ar hyd y ffordd i'r **Ffrith (3).**

Ar ôl edrych o gwmpas y pentref, dychwelwch dan y draphont, yna cymerwch y trac dros bont yr afon a throwch i'r dde. Mae eich taith yn dilyn hen **lwybr ceffylau pwn (4)** nawr. Cerddwch dan bont ffordd tramiau mwynau i gyrraedd **Plas Glascoed (5)** sy'n dyddio o'r 17eg ganrif gynnar. Ychydig y tu hwnt i hyn, mae'r llwybr yn gwyro i'r chwith. Arferai'r hen lwybr ceffylau pwn barhau'n syth ymlaen ond dim ond olion o hyn sydd ar ôl erbyn hyn. Mae'n bosibl bod y Rhufeiniaid wedi defnyddio'r llwybr i gario plwm o'r Mwynglawdd i'r Ffrith.

Ar y ffordd, trowch i'r chwith. Ewch heibio i'r clwstwr o binwydd duon ac, ymhellach ymlaen, tu hwnt i Fwthyn Glascoed, gallwch weld Porthdy Glascoed. Galwyd y porthdy yn Blas Glascoed i ddechrau cyn adeiladu'r un presennol. Sylwch ar y rhywogaethau gwahanol o goed a phrysg yn y **perth (6)** ar hyd y ffordd.

Pan gyrhaeddwch y tro sydyn cyntaf i'r chwith, trowch i'r dde, gan adael y ffordd a chroesi'r nant. Mae modd gweld cnapiau o lo yn y dŵr sy'n dangos lleoliad gwythiennau glo brig.

Cerddwch i fyny'r arglawdd i'r gamfa ar gornel uchaf y rhan gaeëdig hon o'r goedwig. Trowch i'r chwith a chroeswch dri chae. Yn y trydydd, mae pâr o feini hir yn marcio'r fynedfa i hen ryd.

Trowch i'r chwith ar Stryt-y-cefn. Ymhen 170 metr, byddwch yn cyrraedd camfa ar y dde. Cymerwch y llwybr ar draws i'r chwith i lawr i'r cae tuag at y gamfa yn y gornel chwith bellach, yna ewch trwy'r ail glwyd ar y dde tuag at Fferm Waen. Roedd y ffermdy, adeilad o'r 17eg ganrif gynnar, yn fan gorffwys i geffylau pwn yn teithio rhwng Canolbarth Cymru a Swydd Gaer. Ewch trwy'r ddwy glwyd i mewn i fuarth y fferm ac yna trowch ar unwaith i'r chwith.

Wrth gornel y cae trowch i'r chwith a dilynwch y gwrych at y gornel nesaf. Ar ôl croesi camfa ewch ymlaen a dilynwch yr un llinell am 140 metr ac yna trowch i'r dde ar hyd Ffordd Cefn. Trowch i'r dde eto ar hyd Ffordd Brymbo ac ar ôl 300 metr trowch i'r dde unwaith eto i gyrraedd y ffordd fawr a dychwelwch at y gofgolofn.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

(1) Mae lluniau o'r awyr a gefnogir gan ymchwil archaeolegol wedi datguddio anheddiad o'r Oes Gerrig ar ben Pen-llan-y-gŵr. Mae'r llwybr troed sy'n arwain i'r copa'n mynd heibio i'r safle, lle mae modd gweld cylchau cutiau cerrig hyd yn oed heddiw.

(2) Adeiladwyd Plas Nant-y-ffrith yn 1850 gan Thomas Fry, gwerthwr te o Lerpwl. Cynlluniwyd yr adeilad fel porthdy hela ond bu farw Fry yn fuan ar ôl cwblhau'r adeilad. Prynodd Mr Peek, gwerthwr te arall, y porthdy a'i droi'n annedd wledig gan ychwanegu sawl nodwedd gain ac estyn y gerddi.

Yn 1865 gwerthwyd ef i James Kyrke. Etifeddodd ei fab y tir yn hwyrach a llwyddodd ef i estyn yr ystad yn sylweddol. Heddiw, nid oes unrhyw olion o'r adeilad. Mae'r coetiroedd dan berchenogaeth breifat ond mae cytundeb mynediad mewn grym i gerddwyr.

(3) Dros y pedair ganrif ddiwethaf, darganfuwyd nifer mawr o wrthrychau Rhufeinig yn y Ffrith. Daethpwyd o hyd i 22 o geiniogau Rhufeinig, darn arian, sawl bwcl addurnedig, modrwyon aur ac arian, pinnau ifori ac arian, gleiniau melyn a gwydr, rhan o lamp, allor a sawl wrn tra'n gwastadu Clawdd Offa yn ystod gwaith ffordd yn 1828. Pan adeiladwyd y tai Cyngor, darganfuwyd olion fila Rhufeinig. Mae gerddi lleol wedi datguddio sawl arteffact a dan y caeau chwarae ger yr afon daethpwyd o hyd i sylfaen gron.

Pan ddymchwelwyd yr hen fythynnod ger y Bluebell Inn, datguddiwyd rhagor o sylfeini Rhufeinig. Yn ddiweddar, gwnaed darganfyddiad yn y felin lifio tu ôl i'r dafarn; roedd y perchennog yn estyn yr iard trwy dorri'n ddwfn i ochr y bryn a daeth o hyd i ddwy odyn Rufeinig.

Mae oesoedd hwyrach wedi gadael eu hôl ar y pentref tawel hwn hefyd. Gellir gweld pont ceffylau pwn ganoloesol dros yr afon ger rhyd. Mae'r hen ffordd yn symud allan o'r dyffryn tuag at Gymau ac mae'n dal i fod yn agored i gerddwyr. Adeiladir y ffordd fawr ar Glawdd Offa ac mae sawl ymchwilydd yn credu y defnyddiwyd y gwaith pridd yma fel sylfeini ffordd Rufeinig.

Arferai'r adeilad ar ochr y dafarn fod yn fwthyn melinydd; lleolir y felin ar ddiwedd y lôn ger tafarn y Poacher's Cottage. Dim ond y twll ar gyfer echel yr olwyn sydd i'w weld heddiw.

Ymwelodd archaeolegwyr y Time Team â'r Ffrith yn 2006 a gallwch weld eu canlyniadau ar www.channel4.com/history/timeteam.

(4) Ni wyddom pryd defnyddiwyd llwybrau ceffylau pwn am y tro cyntaf ond gwyddom fod y Rhufeiniaid wedi defnyddio trenau ceffylau pwn i gludo nwyddau. Fodd bynnag, yn y bryniau, byddent yn defnyddio mulod yn lle ceffylau gan eu bod yn fwy sicr eu traed ar hyd llethrau peryglus ac yn gallu cario llwythi mawr. Mae'n debyg y defnyddiwyd ceffylau neu ferlod yn y cyfnodau canoloesol oherwydd eu bod yn gyflymach ac yn haws eu trin.

Cafodd ceffylau pwn eu dyddiau gorau yn ystod hanner cyntaf y 18fed ganrif. Roedd economi Cymru'n ffynnu o ganlyniad i deithiau aml yn casglu nwyddau o Gymru i'w gwerthu mewn marchnadoedd tir isel yn Lloegr a dychwelyd â nwyddau o'r trefi.

Teithiai trenau ceffylau pwn ymhell ar draws y bryniau. Byddai pob ceffyl yn cario dwy fasged fawr, un ar bob ochr. Ffurfiai hanner cylch o wiail, â 10 i 15 o glychau copor ynghlwm, arch dros gefn yr anifail o'i ben i'w gynffon. Daeth y clychau'n gyffredin am reswm da; roeddent yn canu tinc ysgafn, heb fod yn ddigon i dynnu sylw'r ceffyl ond yn ddigon i rybuddio eraill o'r perygl ar ddod. Roedd gan y trenau hawl tramwy oherwydd eu niferoedd yn fwy na dim. Byddai gofyn i deithiwr a oedd yn mynd i'r cyfeiriad arall symud allan o'r ffordd neu gael ei wthio o'r trac. Heddiw, gallwn weld pontydd cul â chilfannau bach yn y parapet a alluogodd gerddwyr i symud allan o ffordd y traffig hwn.

Ledled Cymru, mae'n bosibl gweld llwybrau ceffylau pwn. Maent yn cael eu defnyddio fel llwybrau troed, llwybrau ceffyl neu lonydd erbyn hyn. Achoswyd y canol dwfn gan ddefnydd parhaus ac erydiad dŵr. Osgowyd llwybrau a erydwyd yn ddrwg yn aml; mae enghraifft o hyn ger gwaelod y llwybr hwn o'r Ffrith.

(5) Edward Rowland o Gardden oedd yn berchen ar Lascoed yn 1783 ac, wedi ei farwolaeth, daeth yn eiddo i Edward Lloyd Bennion o Riwabon. Yn 1825, prynodd

James Kyrke y tŷ ynghyd ag 83 erw. Ailadeiladwyd y tŷ i raddau helaeth erbyn hyn a'i enw yw Plas Glascoed.

(6) Datblygwyd y broses o ddyddio gwrychoedd yn ne Lloegr ac mae'n amcangyfrif oedran gwrych. Lluosogir nifer y rhywogaethau o goed a phrysg (nid planhigion dringo) mewn darn 30 metr o wrych â 100 ac mae'r ateb yn rhoi braslun o oedran mewn blynyddoedd.

Fodd bynnag, mae'n bosibl nad yw'r dull hwn yn briodol i sawl gwrych yn yr ardal hon a chynhwysir ef fel arwydd tuag at ymchwil bellach yn unig.

DILYNWCH Y CÔD CEFN GWLAD

PARCHU – GWARCHOD - MWYNHAU

- Byddwch yn ddiogel – blaengynlluniwch a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch glwydi ac eiddo fel ag yr oeddent
- Diogelwch blanhigion ac anifeiliaid ac ewch â'ch sbwriel adref
- Cadwch gŵn dan reolaeth
- Rhowch ystyriaeth i eraill

Os cewch unrhyw broblemau ar y daith gerdded hon neu os hoffech wneud unrhyw sylw arall, ffoniwch yr Is-adran Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar 01978 292057.